**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-22-02 (p.4)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2002 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Teitl:** | Strategaeth Faeth Cymru |

**Diben**

1. Papur i'r Pwyllgor ei nodi, sef cynllun gweithredu'r strategaeth faeth.

**Crynodeb/Argymhellion**

2. Mae cynllun gweithredu'r strategaeth faeth yn cymryd agwedd trawsbynciol tuag at daclo tlodi bwyd a gwella maeth ymysg pobl Cymru. Y nod yw gwella iechyd poblogaeth y DU trwy eu hannog i ddilyn deiet iach a chytbwys.

**Amseru**

3. Nid yw'n fater o frys. Bwriedir cyhoeddi'r cynllun gweithredu terfynol ar y cyd ar gyfer y strategaeth faeth yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

**Cefndir**

4. Mae gwella iechyd pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau trwy daclo prif achosion iechyd gwael ar frig agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae lefelau uchel o afiechydon cronig yng Nghymru fel clefyd cronig y galon, canser a disgwyliad oes sydd ddwy neu dair blynedd yn llai na'r gorau yn Ewrop. Mae hyn wedi peri i ni edrych yn fanylach ar ddeiet fel ffactor sy'n penderfynu ar gyflwr eich iechyd.

5. Mae deiet iach a chytbwys yn chwarae rôl bwysig o ran cynnal iechyd da, ac mae'n helpu i leihau'r perygl o ddatblygu clefyd y galon a rhai mathau o ganser. Yng Nghymru nid yw'n deiet yn cyrraedd y cydbwysedd a argymhellwyd gan y llywodraeth er mwyn lleihau peryglon y clefydau hyn. Mae arnom angen newid deiet ar frys - yn arbennig ymysg grwpiau difreintiedig.

6. Mae Cynllun y Cynulliad ar gyfer y GIG yng Nghymru yn pwysleisio'r angen am fwy o weithredu i atal salwch. Mae hefyd yn cynnwys ymrwymiad i gynhyrchu olynydd i Gwell Iechyd Gwell Cymru er mwyn gweithredu ym meysydd polisi eraill i leihau anghydraddoldebau iechyd.

7. Cyhoeddwyd 'Lles yng Nghymru' (HSS-19-02 (p2)) fel testun ymgynghori ar 24 Medi 2002. Mae'n atgyfnerthu dull integredig Llywodraeth y Cynulliad o ymdrin â pholisiau a rhaglenni, ac mae'n darparu fframwaith gyffredinol ar gyfer gweithredu ar draws ystod o bynciau er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau. Mae Lles yng Nghymru yn egluro'r cyswllt rhwng iechyd a lles a meysydd polisi eraill, ac mae'n nodi cynigion ar gyfer cymryd mwy o gamau i leihau anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys gweithredu ar faeth ar lefel y gymuned.

**Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru**

8. Mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) rôl bwysig i'w chwarae trwy roi gwybodaeth i bobl am eu deiet a'u hysgogi i'w wella. Un o flaenoriaethau'r FSA yw sicrhau bod deiet pobl y DU yn gwella yn y tymor hir.

9. Ym mis Mawrth 2001 cymeradwyodd Bwrdd y DU fframwaith strategol a fyddai'n galluogi'r Asiantaeth i ddatblygu gweithgareddau sy'n ymdrin â maeth.

10. Mae Gweithrediaeth Cymru yr FSA wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella deiet a maeth pobl Cymru yn y tymor hir, ac i leihau anghydraddoldebau trwy annog a galluogi'r difreintiedig i wella'u deiet.

**Strategaeth Faeth Cymru**

11. Ers mis Mawrth 2001, mae FSA Cymru wedi bod yn arwain y paratoadau ar gyfer strategaeth faeth Cymru dan oruchwyliaeth y grwp llywio strategaeth faeth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nod y strategaeth a'r cynllun gweithredu yw lleihau nifer y bobl sy'n dioddef salwch sy'n gysylltiedig â deiet. Mae'n bwriadu gwneud hyn trwy hyrwyddo deiet iachach ar gyfer pawb yng Nghymru, ac yn arbennig ar gyfer y grwpiau o bobl sydd yn agored i niwed.

**Grwpiau Blaenoriaeth**

12. Er bod y strategaeth yn anelu at wella deiet pawb yng Nghymru, cydnabyddir bod rhaid blaenoriaethu rhai grwpiau oherwydd bod ganddynt ddeiet a iechyd gwael. Yn gyffredinol, roedd y rheini a gymerodd rhan mewn cyfres o weithdai yn cymeradwyo'r penderfyniad i roi'r flaenoriaeth uchaf i bobl ag incwm isel ac sy'n agored i niwed, a phlant a phobl ifanc; a'r manteision posibl a ddaw yn sgil targedu dynion canol oed a menywod sydd mewn oed i gael plant.

13. Mae'r grwp incwm isel a'r rheini sy'n agored i niwed yn cynnwys pobl oedrannus mewn angen a grwpiau lleiafrifoedd ethnig a du. Yn gyffredinol mae grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn dioddef amodau economaidd a chymdeithasol gwaeth na'r mwyafrif gwyn, ac adlewyrchir hyn yn y cyfraddau uwch o farwolaethau cynamserol a salwch. Mae astudiaethau hefyd yn awgrymu bod rhai grwpiau ethnig yn profi mwy o salwch mewn perthynas ag afiechydon penodol - ac yn arbennig clefyd coronaidd y galon, rhai mathau o ganser a chlefyd y siwgwr.

14. Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys pwyntiau gweithredu penodol sy'n targedu anghenion y grwpiau hyn. Er enghraifft mae'n cynnwys nifer o fentrau sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc, er mwyn:

- Datblygu ac annog dulliau arloesol i gynyddu nifer y ffrwythau a'r llysiau sy'n cael eu bwyta mewn ysgolion.
- Annog darparu brecwast yn yr ysgol.
- Rhedeg siopau ffrwythau yn yr ysgolion ar sail adennill costau.
- Annog a hwyluso dysgu sgiliau coginio a maeth yn yr ysgolion, a sicrhau bod yr adolygiad nesaf o'r cwricwlwm yn eu hystyried yn llawn.

15. Gwnaeth yr adborth a gafwyd yn y gweithdai ddangos bod angen cyfuniad o wybodaeth a hyfforddiant, mentrau lleol a chenedlaethol a pholisïau er mwyn newid deiet pobl. Mae'r rhain yn sail i'r naw argymhelliad strategol.

**Y Broses Ymgynghori**

16. Roedd ymgynghori â'r bobl â budd yn y mater yn rhan bwysig iawn o'r gwaith i ddatblygu strategaeth. Gwnaethom gymryd cam pwysig arall hefyd trwy gynnal pum gweithdy ymgynghorol ledled Cymru rhwng mis Hydref 2001 ac Ebrill 2002, a gofynnom i tua 1300 o grwpiau am eu sylwadau ysgrifenedig ar y ddogfen ymgynghori rhwng mis Gorffennaf ac Awst. Derbyniwyd dros 80 ymateb. Daeth y rhain o ystod eang o bartïon â diddordeb, gan gynnwys y sector gwirfoddol, llywodraeth leol, y sector iechyd, y byd academig ac unigolion. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cefnogi'r syniad o'r strategaeth a'i fanylder. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch a oedd y rhaglen yn rhy uchelgeisiol a chafwyd cwestiynau ynghylch pa mor gywir oedd rhai agweddau ar y dystiolaeth wyddonol sy'n sail iddi (ac mae newidiadau'n cael eu gwneud lle'n briodol).

17. Bydd y ddogfen derfynol yn adlewyrchu rhaglen weithredu ar y cyd rhwng FSA Cymru a'r Cynulliad, ac yn nodi'n glir beth yw ei chyfraniad tuag at Lles yng Nghymru ac i un o brif amcanion strategol y Cynulliad, sef taclo anfantais cymdeithasol a lleihau anghydraddoldebau. Mae llawer o'r ffactorau sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau iechyd yn deillio o broblemau sy'n cael eu trin gan feysydd polisi eraill y Cynulliad.

**Taclo Tlodi Bwyd**

18. Taclo tlodi bwyd a hyrwyddo cydraddoldeb bwyd fydd yn sail i thema'r rhaglen faeth y mae FSA Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei chynnal ar y cyd. Diffiniwyd tlodi bwyd fel methu â fforddio, neu gael gafael ar fwyd sy'n cynnig deiet iach.

19. Mae'r strategaeth faeth ddrafft a'r cynllun gweithredu ar y cyd rhwng FSA Cymru a'r Cynulliad yn nodi potensial maeth fel un o'r prif elfennau yn y strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Mae'n trafod sut i helpu'r Byrddau Iechyd Lleol a'r Awdurdodau Lleol i lunio elfennau maeth yn y strategaeth.

20. Bydd y cynllun gweithredu yn cydnabod bod ffordd well o fynd ati i gael gafael ar fwyd - yn ffisegol ac yn economaidd - a chefnogi mentrau bwyd cymunedol a phrosiectau lleol yn bwysig o ran taclo tlodi bwyd. Er enghraifft:

- Datblygu ymgyrch addysgu'r cyhoedd i hyrwyddo bwyta'n iach i'r cyhoedd, a chymryd camau penodol sy'n targedu'r henoed a phobl o grwpiau ethnig a grwpiau eraill sy'n agored i niwed.
- Lledaenu gwybodaeth i gyrff allweddol ynghylch effaith mentrau cymunedol ar sicrhau deiet iach a chytbwys.
- Gweithio gyda phrif gynhyrchwyr ac eraill i hwyluso'r datblygiadau sy'n anelu at wella'r ffordd o fynd ati i gael gafael ar fwyd gan gynnwys sefydlu mentrau bwyd cydweithredol (co-ops).

21. Gwnaeth y Cabinet gymeradwyo'r cynllun gweithredu drafft ar 28 Hydref. Gwnaeth y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad gerbron y cyfarfod llawn ar 30 Hydref.

**Themâu trawsbynciol**

22. Cydnabyddir bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i daclo maeth yng Nghymru fel mater polisi trawsbynciol, ac mae Lles yng Nghymru yn adlewyrchu hyn. Bydd datblygu'r strategaeth faeth a'r cynllun gweithredu yn cyfrannu at amcanion gwella iechyd y Cynulliad a'i agenda anghydraddoldebau ehangach.

23. Rydym eisoes wedi gwneud peth cynnydd da wrth gynnwys iechyd mewn polisiau a rhaglenni eraill e.e. Cymunedau'n Gyntaf, rhaglen Amcan 1 a Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru. Mae maeth hefyd yn cael ei gynnwys mewn strategaethau, fframweithiau a rhaglenni eraill e.e. fframwaith Plant yn Gyntaf, y strategaeth bwydo o'r fron, y cynllun bwyd lles a 'Pan fwyf yn Hen a Pharchus', sef y Strategaeth Pobl Hyn.

24. Mae Adran Amaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad hefyd yn gweithio i annog dull integredig o ddelio â materion bwyd lleol.

25. Bydd newidiadau yn strwythur GIG Cymru a sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn creu cyfleoedd newydd i hyrwyddo maeth.

**Cydymffurfio**

26. Mae'r Ministry of Health Act 1919 yn ymwneud â gweithredu er budd iechyd pobl. Mae Deddf y Gwasanaethau Iechyd Gwladol 1977 (Adran 1) yn ymdrin â gwasanaethau sy'n ymwneud â iechyd. Dirprwywyd pwerau'r deddfau hyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i staff dan y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn rhoi pwer i'r Cynulliad wneud unrhyw beth i hwyluso arfer unrhyw un o'i swyddogaethau, neu sy'n gydnaws â hynny neu'n atodol i hynny (Adran 40). Mae Adran 85(2) yn ymdrin â gwariant. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb.

**Camau i’w cymryd gan y pwyllgor pwnc**

27. Papur i'w nodi

**Jane Hutt**
**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt:** Maureen Howell, Is-adran Hybu Iechyd
Ffôn: 029 2082 6723, e-bost: maureen.howell@wales.gsi.gov.uk